Bitesize

# Ed Thomas

**Mae'r testun hwn o** http://www.bbc.co.uk/education/guides/z2kjq6f/video

**Ed Thomas:** Ma ardal y'n hun wastad wedi bod yn bwysig i fi. Mwy a mwy dwi wedi sgwennu dramâu ti'n ffindo bod ti'n cloddio mwy o hanes dy deulu di. Ma *Gas Station Angel* wedi ei allforio i Colombia. Ro'dd hwnna'n rwbeth personol iawn fel marwolaeth y'n hen fam-gu trwy ddamwain yn y tŷ, getho hi jyst â boddi, lot o bethe bach wedi digwydd. Wedyn ti'n ffindo bod pobol ochr arall y byd yn neud nhw mewn i 'metaphors' gwahanol sydd wastad yn meddwl bod, gobeitho bod nhw'n lyco'r sgwennu a'r 'metaphors' digon i neud beth ma nhw'n moyn 'da fe. Ond odd *Gas Station Angel* yn un enghraifft bod ni'n sylweddoli pwy mor, beth oedd y teyrnged i dalu i'n fam a'n dad a fel geso i'n eni, fel geso i'n godi, y'n fagu a'r ardal na. Naethon ni ffilmo *House of America* yn yr un ardal. Ni di dod nôl i Cwmgiedd lot o withe ond ma'r syniad hyn o beth yw cartre wedi bod yn tyfu yn fwy o obsesiwn er bod y'n gartre i yn gorfforol yn Gaerdydd nawr; y catre sy yn y'n ben i yw'r etifeddiaeth o gariad a 'solidity' nath Mam a Dad roi i fi. Ma hwnna wastad yn mynd i fod yn y'n ben i. Galli di gario dy gariad at dy gynefin a dy filltir sgwâr yn dy ben di fel rhwbeth dychmygol os 'yt ti moyn a ma hwnna weithie i fi'n gallu bod mor gyhyrog â bod yn y lle yn llythrennol.

**Ace:** A fel o'n i'n dringo, dringo'n uwch i'r nos, allen i dyngu bo fi'n gweld Cymru fel carped o mlan i. Carped ar lawr anwastad. Dim hyd yn oed llawr, dim ond syniad o lawr. A'r carped? Do'dd e ddim yn 'Axminster' o bell ffordd. Ond pwy fydde'n moyn Axminster a'r cwbl hyn 'da fi? Allen i weld am filltiroedd, i Loegr - Dyfnaint, Cernyw a thu hwnt i Gernyw. Ffrainc, wedyn Sbaen ac ar y gwaelod ym mhen pella'r gorwel, allen i dyngu bo fi'n gweld goleuadau gogledd Affrica.

**Hazel Walford Davies:** Mae nifer enfawr o themâu, o brif themâu, yn nramâu Ed. Y syniad o ddianc i rhwle mae person yn gallu breuddwydio am fyd perffaith. A dyna y'ch chi'n cael felly, y cysyniad o'r freuddwyd Americanaidd yn ei ddramâu e. Ond hefyd yn bwysig iawn i'r Gymru gyfoes yw'r ffaith fod e'n


**© Copyright 2014**

sôn am gyflwr Cymru fel y mae ar hyn o bryd. Ac mewn ffordd mae e'n sôn am, fel mae e ei hun wedi gweud, "the shame of being Welsh".

**Dorian Thomas:** Taffy is a Welshman

**Russell Gomer:** Taffy is a thief!

**Dorian Thomas:** Taffy is the new aristocracy!

**Russell Gomer:** Who's Taffy?

**Dorian Thomas:** Taffy is us!

**Ed Thomas:** Dwi'n cofio John Morgan, nath e ddweud rhwbeth, "Every time I speak of a Wales, I'm really talking about myself." A fi'n cofio blynydde nôl, 'na beth o'n i'n meddwl hefyd, achos rhwbeth dychmygol o'dd Cymru achos o'dd e ddim yn wlad oedd y pobl yn berchen arni, oedd e'n rwbeth o'dd yn, fi'n meddwl bod hwn yn fwyfwy yn dy ben di, bod Cymru yn dy ben di. Felly, trw celfyddyd, 'lli di ail-greu y Gymru ti moyn withe a bod yn onest gyda'i wendide a peth o dy wendide dy hunan a fel ti'n gweld dy ddiwylliant di. Fi ddim yn gwbod os fi wedi mynd ati'n benodol i sgwennu am Gymru. Ond yn amlwg ma lot o bobol yn meddwl bod nhw'n ddramâu Cymreig iawn. Falle naf i bara mlan i sgwennu dramâu a falle newn nhw ddweud rhwbeth am y Cymry, heb bo fi'n gwbod. Ma Cymru yn fwyfwy pwysig i fi ac ma'r siom o fod yn Gymro cystal â'r pleser o fod yn Gymro.


© Copyright 2014